# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Chwefror 2013 i'w hateb ar 5 Mawrth 2013

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Sandy Mewies (Delyn)**: Pa gefnogaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. OAQ(4)0940(FM)

2. **Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dlodi plant yn Ne Caerdydd a Phenarth. OAQ(4)0945(FM)

3. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0949(FM)

4. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael â Llywodraeth y DU am y bwriad i breifateiddio rhannau helaeth o'r gwasanaeth prawf. OAQ(4)0938(FM)**W**

5. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Pa wersi y gall Cymru eu dysgu o Adroddiad Francis ar ofal cleifion yn Ysbyty Ymddiriedolaeth GIG Canolbarth Swydd Stafford. OAQ(4)0937(FM)

6. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu manteision Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo i gymunedau yng Nghymru. OAQ(4)0941(FM)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu cynllun gwarant morgais Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0939(FM)

**8. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu gofal i'r newydd-anedig yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0944(FM)

**9. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am system anrhydeddu arfaethedig Cymru. OAQ(4)0943(FM)

**10. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaethau Llywodraeth Cymru o ran asesu a mynd i'r afael â chaethiwed i hapchwarae. OAQ(4)0946(FM)

**11. David Rees (Aberafan):** A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU am reoleiddio asiantaethau sy'n cyflenwi athrawon i ysgolion. OAQ(4)0947(FM)

**12. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo. OAQ(4)0948(FM)

**13. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** O gofio anallu parhaus Byrddau Iechyd Lleol i gadw o fewn eu cyllideb, pa ystyriaeth fydd y Prif Weinidog yn ei rhoi i ganiatáu'r un amserlen gyllidebu 3 blynedd iddynt ag a ganiatawyd i awdurdodau lleol. OAQ(4)0936(FM)

**14. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y gyllideb Ewropeaidd ar Gymru. OAQ(4)0942(FM)**W**

**15. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddiwydiant y cyfryngau yng Nghymru. OAQ(4)0935(FM)